A yw deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn gymwys i wirfoddolwyr sy'n gweithio dros elusennau?

Pan fydd gan sefydliad o leiaf un gweithiwr cyflogedig, caiff ei ystyried yn 'gyflogwr' at ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno.

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (ISBN 0717624889 - ar gael gan HSE Books) yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr a'r hunangyflogedig i asesu'r risgiau i gyflogeion ac unrhyw un arall (e.e. gweithwyr gwirfoddol, cleientiaid a chwsmeriaid) y gall y gweithgareddau yr ymgymerir â hwy effeithio arnynt. O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae'n rhaid cymryd mesurau ataliol ac amddiffynnol priodol i leihau'r risg a nodwyd os nad ydynt yn cael eu rheoli'n ddigonol ar hyn o bryd. Mae rhai o'r rheoliadau a restrwyd yn ddiweddarach yn disgrifio'r mesurau ataliol ac amddiffynnol penodol y mae'n rhaid eu cymryd mewn amgylchiadau arbennig neu wrth ymgymryd â gweithgareddau arbennig.

Yn gyffredinol, dylai'r un safonau iechyd a diogelwch fod yn gymwys i weithwyr gwirfoddol fel ag y byddant i gyflogeion sy'n cael eu hamlygu i'r un risgiau. Fodd bynnag, os yw'r asesiad risg yn dangos bod y risgiau i weithwyr gwirfoddol yn wahanol, dylai'r mesurau ataliol ac amddiffynnol a gymerwyd adlewyrchu'r risgiau gwahanol.
Mae'r HSE yn ystyried ei fod yn arfer da i'r rhai sy'n defnyddio gwirfoddolwyr roi ar waith yr un mesurau iechyd a diogelwch ag y byddant mewn perthynas cyflogwr/cyflogai waeth p'un a oes dyletswyddau cyfreithiol llym ai peidio.

Mae'r HSE wedi cyhoeddi canllaw, HSG192, Charity and voluntary workers: a guide to health and safety at work, (ISBN 0717624242 – ar gael gan HSE Books).